Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 459

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd Taith Undod yr Heddlu 2026**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Taith Undod yr Heddlu yn ddigwyddiad beicio pedal elusennol sy'n codi arian ar gyfer goroeswyr heddlu'r DU.

Mae'r digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth ac yn anrhydeddu swyddogion heddlu sydd wedi marw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae swyddogion heddlu o bob cwr o Gymru a Lloegr yn beicio ar draws y wlad i godi arian ac maent wedi ymrwymo i helpu teuluoedd swyddogion heddlu sydd wedi colli eu bywydau ar ddyletswydd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi'r elusen eleni am yr unfed flwyddyn ar ddeg.
Yn ystod 2026, ehangodd Heddlu Dyfed-Powys ei gysylltiad â'r elusen drwy gynnal taith feicio o amgylch Sir Benfro, gan gysylltu â chwe theulu i goffáu swyddogion a fu farw.
Dan arweiniad y Prif Gwnstabl, daeth y daith â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion mewn swydd ynghyd mewn arddangosfa gref o bartneriaeth a chyfeillgarwch, wedi'u huno yn eu hymrwymiad i wasanaethu'r gymuned.

**Argymhelliad:**
Argymhellir rhoi cyfraniad o £1,000 o gyllideb Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 18/06/2026**